



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Adroddiad blynyddol ynghlŷn â chydraddoldeb

2019-2020



Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Pwy ydym ni.....	4
Gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb.....	4
Amcanion cydraddoldeb.....	5
Cyflog cyfartal.....	12
Caffael.....	13
Gwaith yn y dyfodol.....	14
Y mudiad <i>Black Lives Matter</i>	15
Ymrwymiad i'r Gymraeg.....	16
Manylion cyswllt.....	17
Gwybodaeth gydraddoldeb gan ein staff.....	18
Proffil amrywiaeth y bobl ar ein Cofrestr.....	20
Set Ddata Gofal Cymdeithasol Genedlaethol i Gymru.....	20
Data cydraddoldeb o'r rhaglenni hyfforddi cenedlaethol.....	21

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu'r cynnydd y mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi'i wneud tuag at gyflawni ein chwe amcan cydraddoldeb yn ystod 2019 i 2020.

Mae'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol (ar gyfer Cymru) yn mynnu ein bod yn adrodd yn flynyddol ar sut rydym wedi cyflawni dyletswydd gydraddoldeb cyffredinol y sector cyhoeddus (y ddyletswydd gyffredinol) fel gafodd ei hamlinellu yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Yn 2018, gwnaethom gyhoeddi ein [cynllun cydraddoldeb strategol](#) cyntaf a oedd yn amlinellu sut y byddwn ni, trwy ein rôl a'n swyddogaethau, yn hyrwyddo a datblygu cyfle cyfartal ar gyfer y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, sef:

- pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, eu teuluoedd a'u gofalwyr
- y gweithlu sy'n darparu gofal a chymorth
- ein staff.

Rhoddodd y broses o ddatblygu ein *Cynllun cydraddoldeb strategol* gyfle i ni egluro ein hymrwymiad i gydraddoldeb a chydabod ein rôl arweinyddiaeth yn y sector gofal cymdeithasol a sector y blynyddoedd cynnar, yn ogystal â'n cyfrifoldeb i ddylanwadu ar eraill i hyrwyddo cydraddoldeb.

Diben yr adroddiad hwn yw darparu cofnod o'n gwaith yn ystod y flwyddyn, ond rydym hefyd wedi nodi cam gweithredu i ddatblygu *Cynllun cydraddoldeb strategol* newydd. Bydd y cynllun newydd hwn yn ystyried effaith economaidd-gymdeithasol y pandemig Covid-19 ac anghydraddoldebau hirsefydlog eraill, fel anfanteision systemig a strwythurol a amlygwyd gan y mudiad *Black Lives Matter*.

Ym mis Awst 2020, amlinellodd ein Prif Weithredwr, Sue Evans, ymrwymiad Gofal Cymdeithasol Cymru i wrth-hiliaeth yn ei cholofn ddeufisol yn y *Western Mail*:

“Rydym ni, yn Gofal Cymdeithasol Cymru, yn datgan ein bod yn wrth-hiliol, ac rydym yn falch o hynny. Ond, mae digwyddiadau diweddar wedi procio ein cydwybod ac wedi'n gorfodi ni i gyd i fyfyrrio ar ein hymddygiad a'n hagweddau ein hunain a rhai ein sefydliad”.¹

1. [Does Wales care enough about equality and human rights](#) gan Sue Evans, ein Prif Weithredwr, yn y *Western Mail*, mis Awst 2020

Pwy ydym ni

Fe'n sefydlwyd ym mis Ebrill 2017, gan ddod â rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol, datblygu'r gweithlu a gwella gwasanaethau ynghyd mewn un sefydliad. Yn ogystal, rydym yn ymwneud â llunio'r blaenoriaethau ymchwil ar gyfer gofal cymdeithasol a datblygu cysylltiadau cryfach â gofal a chymorth.

Ein gweledigaeth yw bod pob unigolyn sydd angen gofal a chymorth yn byw'r bywyd sydd o bwys iddyn nhw. Mae gennym swyddogaeth allweddol i'w chyflawni wrth wella canlyniadau llesiant i blant ac oedolion sy'n defnyddio gofal a chymorth, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb

Yn ôl canllawiau anstatudol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (y comisiwn) ynglŷn ag adrodd ar gydraddoldeb:

“Mae'n rhaid i'r adroddiad blynyddol ynglŷn â chydraddoldeb nodi'n benodol:

- **y camau y mae'r awdurdod wedi'u cymryd i amlygu a chasglu gwybodaeth berthnasol**
- **datganiad ynghylch effeithiolrwydd trefniadau'r awdurdod ar gyfer amlygu a chasglu gwybodaeth berthnasol.”²**

Mae gennym drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer amlygu a chasglu gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb ynglŷn â'n staff a'n partneriaid. Rydym yn amlygu a chasglu'r data hwn trwy'r canlynol:

- monitro cydraddoldeb ein staff
- y Gofrestr o Weithwyr Gofal Cymdeithasol (y Gofrestr)
- y Set Ddata Gofal Cymdeithasol Genedlaethol i Gymru
- darparu rhaglenni hyfforddiant cenedlaethol.

Nid casglu a chael at ddata cydraddoldeb yw ein nod, ond ymgorffori tystiolaeth o gydraddoldeb yn ein gwaith. Mae casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol yn rhan hollbwysig o gyflawni'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a phenodol. Rydym eisiau sicrhau bod gennym y dystiolaeth orau posibl i ganiatáu i ni osod amcanion ystyrlon a chynnal asesiadau effaith yn seiliedig ar wybodaeth lawn.

Amcanion cydraddoldeb

Llywiwyd y broses o ddatblygu ein chwe amcan cydraddoldeb gan bobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Diben gosod amcanion cydraddoldeb yw helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol yn well.

A ninnau'n gorff cyhoeddus rhestredig, sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd gyffredinol, mae'n rhaid i ni, wrth arfer ein swyddogaethau, roi sylw priodol i'r angen i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon, ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu
- meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu.

Mae amcanion cydraddoldeb yn helpu i hoelio'r sylw ar y materion cydraddoldeb sy'n flaenoriaeth mewn sefydliad, fel y gall wneud gwelliannau ym meysydd llunio polisiau, darparu gwasanaethau a chyflogaeth, gan gynnwys dyrannu adnoddau.³



3. [Amcanion a'r Ddyletswydd Gydraddoldeb: Canllaw i Awdurdodau Cyhoeddus](#), y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2014

Cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb

Er mwyn bod yn sefydliad effeithiol a thryloyw, rydym yn adrodd ar ein perfformiad ac yn ceisio adborth yn rheolaidd. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn adlewyrchu'r camau, y gweithredoedd a'r mentrau rydym wedi'u cynnal i gyflawni ein chwe amcan cydraddoldeb.

Amcan 1 – Cynyddu ymwybyddiaeth o'r Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol (y Côt) ymhlith pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, eu teuluoedd a'u gofalwyr

Pam mae hwn yn un o'n hamcanion?

- Rydym eisiau sicrhau bod pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn gwybod am y Côt. Mae'r safonau'n bodoli i helpu i sicrhau bod pobl yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen i fyw eu bywyd yn y ffordd sy'n adlewyrchu eu hanghenion.
- Rydym wedi casglu tystiolaeth sy'n awgrymu mai ychydig o wybodaeth neu ddim gwybodaeth o gwbl sydd gan bobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) am y Côt. Gyda'r dystiolaeth gychwynnol hon, rydym wedi ymrwmo i ddefnyddio amrywiaeth o offer ac adnoddau i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Côt ymhlith y bobl amrywiol sy'n defnyddio gofal a chymorth yng Nghymru.

Beth ydym wedi'i wneud i symud yr amcan hwn ymlaen?

- Rydym yn parhau i weithio gyda sefydliadau a mannau penodol yn y gymuned i rannu gwybodaeth am y Côt.
- Yn dilyn adborth gan bobl o gefndir BAME a sefydliadau sy'n cynrychioli eu buddiannau, rydym wedi cyfieithu'r daflen *Chi a'ch gweithiwr gofal cymdeithasol* i 14 o ieithoedd a siaredir yn gyffredin yng Nghymru. Bydd yr adnoddau newydd hyn yn rhan ganolog o'n hymdrechion i gynyddu ymwybyddiaeth wrth symud ymlaen.
- Rydym hefyd wedi datblygu fideo wedi'i animeiddio am y Côt i geisio gwneud y wybodaeth yn fwy hygyrch i gynulleidfa ehangach o bobl sy'n defnyddio gofal a chymorth.

Amcan 2 – Ymchwilio a rhannu ymarfer da sy'n cefnogi canlyniadau gwell i bobl sy'n defnyddio gofal a chymorth

Pam mae hwn yn un o'n hamcanion?

Rydym eisiau cael canlyniadau gwell i blant ac oedolion sy'n defnyddio gofal a chymorth, eu teuluoedd a'u gofawyr. Rydym eisiau deall a rhannu ymarfer da sy'n ymateb i anghenion gofal a chymorth y cymunedau amrywiol yng Nghymru.

Beth ydym wedi'i wneud i symud yr amcan hwn ymlaen?

- Gwnaethom gynnal ddau weithdy cyfathrebu ac ymgysylltu ynglŷn â dementia ym mis Ionawr 2020 i helpu i wella'r ffordd rydym yn cyfathrebu â phobl sy'n byw gyda dementia a'u gofawyr.
- Mynychwyd y gweithdai gan bobl sy'n byw gyda dementia, gweithwyr gofal dementia, grwpiau cymorth dementia a sefydliadau partner, fel Llywodraeth Cymru, Gwelliant Cymru a'r Gymdeithas Clefyd Alzheimer.
- Ein gobaith oedd defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r gweithdai i osod gwerthoedd craidd, wedi'u seilio ar yr hyn y mae pobl sy'n byw gyda dementia yn ei ystyried yn gyfathrebu da. Yn anffodus, ni allem wneud hyn oherwydd y pandemig Covid-19 a'r effaith a gafodd ar y Gymdeithas Clefyd Alzheimer. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn ystyried sut gallwn ddatblygu hyn mewn ffordd wahanol gyda'r Gymdeithas Clefyd Alzheimer yn ystod y flwyddyn ariannol hon⁴.
- Yn ystod y cyfnod clo, gwnaethom gyfarfod â [Gweithgor Dementia'r 3 Gwlad \(3NDWG\)](#), sy'n cael ei gynnal gan bobl sy'n byw gyda dementia, i'n helpu i ddatblygu adnodd dementia wedi'i seilio ar ymarfer. Rydym yn parhau i weithio gyda'r grŵp i sicrhau ein bod yn adlewyrchu nodweddion pwysicaf gweithiwr gofal ym marn pobl sy'n byw gyda dementia.
- Rydym yn gweithio'n agos gyda chadeirydd 3NDWG yn ein gwaith ehangach ar ddementia ac mae'r cadeirydd hefyd yn aelod o'n grŵp dysgu a datblygu ynglŷn â dementia i adlewyrchu safbwyntiau ei aelodau. Yn ogystal, mae'r cadeirydd wedi ysgrifennu adran am [ddeallo profiadau pobl sy'n byw gyda dementia yn ystod y cyfnod clo](#).
- Mae'r tudalennau Covid-19 ar ein gwefan yn cynnwys adran benodol sy'n darparu [dolenni ac adnoddau defnyddiol i gynorthwyo pobl sy'n byw gyda dementia yn ystod y pandemig](#).
- Yn 2019, fe'n comisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu canllawiau yn cynnwys enghreifftiau ymarferol o sut gall awdurdodau lleol (ac unrhyw un sy'n darparu gwasanaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) roi sylw priodol i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf.
- Datblygwyd y canllawiau gyda chymorth y gweithgor Making Rights Real. Roedd aelodau'r grŵp yn cynnwys Lorraine Morgan, sy'n ymgynghorydd annibynnol ar heneiddio, yn ogystal â chynrychiolwyr o'r canlynol:
 - Gofal a Thrwsio Cymru
 - Cynghrair Pobl Hŷn Cymru
 - Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
 - Llywodraeth Cymru
 - Senedd Pobl Hŷn Cymru
 - Prifysgol Abertawe
 - Prifysgol Aberystwyth
 - Cynghrair Henoed Cymru
 - Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Amcan 3 – Cefnogi'r sector i gyflawni gweithlu amrywiol a chynrychioliadol

Pam mae hwn yn un o'n hamcanion?

Rydym eisiau cael gweithlu gofal cymdeithasol sy'n fwy cynrychioliadol o'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, yn arbennig felly lle mae tystiolaeth o dangynrychiolaeth. Rydym eisiau gweithio gyda phartneriaid i amlygu ac ymdrin â'r rhwystrau a allai atal pobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchoddedig rhag ymuno â'r gweithlu gofal cymdeithasol.

Mae pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth wedi dweud wrthym fod gweithlu amrywiol yn dod ag amrywiaeth o syniadau, profiadau a sgiliau sy'n cael effaith gadarnhaol ar y ffordd y mae gofal yn cael ei ddarparu. Yn ogystal, gwnaethant ddweud wrthym fod rhaid i ofal cymdeithasol gael ei hyrwyddo fel proffesiwn sy'n cael ei werthfawrogi ac y dylid sicrhau bod amrywiaeth o lwybrau mynediad ar gael i bobl ymuno â'r sector. Rydym wedi ymrwmo i gefnogi cynaliadwyedd y gweithlu trwy ddatblygu a gweithredu strategaeth y gweithlu a chynhyrchu adnoddau i gynorthwyo cyflogwyr a'r gweithlu.

Beth ydym wedi'i wneud i symud yr amcan hwn ymlaen?

- Mae dynion, pobl anabl a phobl o gefndir BAME wedi'u tangynrychioli yn y gweithlu gofal cymdeithasol, ac yng ngweithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru. Mae'r ymgyrch Gofalwn Cymru wedi bod yn tynnu sylw at storïau sy'n cynnwys dynion sy'n gweithio ym maes gofal, ac amlygodd sawl enghraifft o ddynion yn gweithio mewn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar yn ystod wythnos Gofalwn Cymru ym mis Medi 2019.
- Mae'r ymgyrch hefyd wedi bod yn hyrwyddo storïau sy'n dangos pwysigrwydd y Gymraeg.
- Ar hyn o bryd, mae dau unigolyn o gymunedau BAME wedi cytuno i gael eu ffilmio ar gyfer cam nesaf yr ymgyrch gofal cymdeithasol. Rydym hefyd yn bwriadu casglu astudiaethau achos o fewn y gymuned pobl fyddar a chynnwys opsiynau iaith Arwyddion Prydain (BSL) yn ein cynnwys fideo i ganiatáu gwell mynediad i'r rhai sy'n cyfathrebu trwy BSL.
- Yn ogystal, rydym yn edrych ar sut mae sectorau eraill wedi cysylltu â chymunedau, fel grwpiau BAME, ac yn ystyried sut gallwn gymhwyso'r hyn a ddysgwyd i'r ymgyrch Gofalwn Cymru, er enghraifft, yn ein hymagweddu a'r iaith a ddefnyddiwn.
- Bydd yr ymgyrch Gofalwn Cymru yn parhau i fod yn gyfrwng pwysig i hyrwyddo gweithlu amrywiol yn y sector gofal cymdeithasol, a'r blynyddoedd cynnar a gofal plant, yng Nghymru. Bydd y pwyslais hwn yn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o amrywiaeth y gweithlu, yn ogystal â phwysigrwydd amrywiaeth i'r gofal a'r cymorth y mae'n eu darparu, a bydd yn helpu i ddenu gweithlu amrywiol i'r sector.

Amcan 4 – Sicrhau bod cydraddoldeb, hawliau dynol, urddas a pharch yn parhau i ategu hyfforddiant gofal cymdeithasol


Pam mae hwn yn un o'n hamcanion?

Mae gofal cymdeithasol yng Nghymru yn newid. Mae mwy o bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig angen gofal a chymorth, ac maen nhw'n mynnu derbyn gofal a chymorth sy'n bodloni eu hanghenion. Felly, mae'n hanfodol bod cydraddoldeb yn ganolog i hyfforddiant y gweithlu.

Rydym eisiau sicrhau bod y gweithlu'n cael ei gefnogi a'i fod yn darparu gofal cymdeithasol yn unol â'r gyfraith, a bod ei ymarfer yn adlewyrchu egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Beth ydym wedi'i wneud i symud yr amcan hwn ymlaen?

- Gwnaethom weithio gyda Chymwysterau Cymru i sicrhau bod y [gyfres newydd o gymwysterau ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant](#) yn adlewyrchu cydraddoldeb, urddas a pharch. Mae'r gwerthoedd hyn wedi cael eu hymgorffori yn yr holl gynnwys.
- Gwnaethom helpu Cymwysterau Cymru a'r cyrff dyfarnu i ddatblygu sail ar gyfer asesu'r cymwysterau newydd sydd wedi'i hategu gan werthoedd cydraddoldeb, urddas a pharch.
- Aeth y cymwysterau Lefel 4 a 5 newydd yn fyw ym mis Medi 2020 a byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i asesu sut mae'r cymwysterau a'u hasesiadau'n helpu i ymsefydlu egwyddorion ac arferion gorau cydraddoldeb ac amrywiaeth.



Amcan 5 – Recriwtio a chadw gweithlu cynrychioliadol sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth i gefnogi a hyrwyddo cyfle cyfartal

Pam mae hwn yn un o'n hamcanion?

Ein gweithlu (yn Gofal Cymdeithasol Cymru) yw ein hadnodd mwyaf gwerthfawr. Rydym wedi ymrwymo i symud cydraddoldeb ac amrywiaeth ymlaen a chael gwared â phob math o wahaniaethu, erledigaeth ac aflonyddu yn y gweithle.

Mae gweithlu mwy amrywiol sy'n adlewyrchu'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu yn well yn parhau i fod yn ganolog i'n hymdrechion i greu gweithle cynhwysol a gweithle ar gyfer dysgu. Rydym eisiau i'n staff fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo cyfle cyfartal a datblygu perthnasoedd da. Byddwn yn cyflawni hyn trwy hyfforddiant a datblygiad.

Beth ydym wedi'i wneud i symud yr amcan hwn ymlaen?

- Yn 2019-2020, gwnaethom hysbysebu 39 o swyddi a chawsom 21 o ffurflenni monitro cydraddoldeb o'r ymgyrchoedd recriwtio hynny. Mae hyn yn well na 2018-2019, pan na chawsom ddigon o ffurflenni i allu adrodd yn rhesymol ar ein hymgeiswyr.
- O'r 21 o ffurflenni monitro cydraddoldeb a gawsom:
 - dywedodd mwy nag 80 y cant eu bod yn wyn
 - dywedodd pob un eu bod yn heterorywiol
 - dywedodd 9.5 y cant fod ganddynt anabledd
 - roedd gwasgariad cyfartal ar draws yr holl ystodau oedran hyd at 60 oed.
- Mae'n rhaid i bob aelod newydd o staff gwblhau modiwl hyfforddiant ar-lein ar ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth yn ystod ei gyfnod sefydlu, sydd wedi'i gysylltu â'n fframwaith sefydlu a'n cyfnod prawf ar gyfer cyflogaion. Mae pob un o'r 39 aelod newydd o staff a ymunodd yn 2019-2020 wedi cwblhau'r hyfforddiant ar-lein ar ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Rydym wedi ymchwilio i gyflawni Achrediad Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd. Mae'r achrediad yn gweithio ar draws tair lefel ac rydym wrthi ar hyn o bryd yn ystyried sefydlu'r seilwaith angenrheidiol i ddod yn sefydliad 'Lefel 1: cyflogwr Ymroddedig Hyderus o ran Anabledd' yn 2020-2021.
- Gwnaethom sefydlu proses yn ein system adnoddau dynol i fonitro hyfforddiant staff o ran cydraddoldeb, ond bydd angen i ni ailedrych arni gan nad oedd yn cael ei defnyddio'n iawn. Erbyn hyn, gallwn fonitro proffil amrywiaeth ceisiadau mewnol am newidiadau i gyflogaeth. Ond, oherwydd y niferoedd bach o staff sy'n gysylltiedig, ni allwn gyhoeddi'r data gan y byddai'n adnabod yr aelodau staff dan sylw.

Amcan 6 – Ymestyn a gwella’r ffyrdd rydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â’r cyhoedd a’r gweithlu

Pam mae hwn yn un o’n hamcanion?

Fel sefydliad arweinyddiaeth gyhoeddus, mae’n bwysig i ni gynyddu a gwella ein hymgysylltiad â phobl sy’n rhannu un neu fwy o’r nodweddion gwarchoddedig, os ydym am wireddu ein gweledigaeth.

Rydym yn chwarae rhan hanfodol mewn dod â phobl ynghyd er mwyn gwella ansawdd y gofal a’r cymorth ledled Cymru, ac mae’n bwysig ein bod yn gwneud hynny mewn modd sy’n adlewyrchu ein gwerth o annog a galluogi pawb i weithio gyda’i gilydd. Mae cysylltu â chymunedau amrywiol mewn ffordd ystyrlon yn cyfoethogi ein gwybodaeth a rennir ac yn ein galluogi i gyflawni ein nodau trwy weithio gyda phobl.

Beth ydym wedi’i wneud i symud yr amcan hwn ymlaen?

- Rydym wedi cynnal archwiliadau hygrychedd o’n prif wefan, ein porth cofrestru ar-lein, sef GCCarlein, a’r wefan Egwyddorion a Gwerthoedd. Mae’n bwysig ein bod yn ceisio cyflawni safonau uchel o ran hygrychedd y we a’n bod yn agored ynglŷn â’n cynnydd a’n cyfyngiadau.
- Gwnaethom ddefnyddio Siteimprove i fonitro ein gwefan a GCCarlein i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chyfarwydddeb yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer hygrychedd y we. Rydym wedi cyhoeddi [datganiad hygrychedd](#) ar ein gwefan, sy’n nodi’r adrannau lle nad yw’r safleoedd yn cydymffurfio â’r gyfarwydddeb ac yn amlinellu cynllun ar gyfer sicrhau bod yr ardaloedd hynny’n cydymffurfio.
- Mae datganiad hygrychedd wedi cael ei ychwanegu at y wefan Egwyddorion a Gwerthoedd hefyd. Gellir cyrraedd y datganiad hygrychedd ar gyfer hwb deddfwriaeth Gofal Cymdeithasol Cymru o’r brif wefan.
- Yn ogystal, mae GCCarlein wedi cael ei asesu gan y Ganolfan Hygrychedd Digidol ac mae [adroddiad llawn](#) wedi’i gyhoeddi ar y safle. Mae’r adroddiad yn manylu ar y meysydd i’w gwella, ac rydym wrthi ar hyn o bryd yn datblygu cynnig ar gyfer sut i fynd ati i wneud y gwaith hwnnw.

Cyflog cyfartal

Rydym yn cynnal adolygiad ynglŷn â chyflogau cyfartal bob blwyddyn er mwyn darganfod a oes yna unrhyw wir anghyfartaleddau neu anghyfartaleddau posibl sy'n ymwneud â chyflog yn y sefydliad – ac os oes rhai, gweithredu i ymdrin â'r rhain.

Yn benodol, rydym yn gwirio nad ydym yn gwahaniaethu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn erbyn unrhyw weithiwr neu grŵp o weithwyr trwy ein systemau cyflog.

Mae'r archwiliad yn cynnwys y naw nodwedd warchoddedig fel y'u nodir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010:

- rhyw
- oed
- anabledd
- hil
- ailbennu rhywedd
- beichiogrwydd neu famolaeth
- crefydd neu gred
- cyfeiriadedd rhywiol
- priodas a phartneriaeth sifil.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein trefniadau cyflogau a graddio'n gyfartal ac yn agored. Ein cyflog rhywedd oedd 23.52 y cant (canolrif) ar 31 Mawrth 2020. Mae ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi cynyddu (o 16.46 y cant ym mis Ionawr 2018) ac mae'n uwch na chyfartaledd y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd. Mae'n debygol y gellir esbonio hyn gan fod menywod wedi'u gorgynrychioli yn y graddau cyflog is yn ein sefydliad, ond ni ddylem laesu dwylo a rhaid i ni barhau i graffu ar ein penderfyniadau cyflog i sicrhau eu bod yn deg i'r ddau ryw.

Caffael

Fel corff cyhoeddus rhestredig, mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau bod cydraddoldeb yn ganolog i'n prosesau caffael a'n bod yn sicrhau bod pob cyflenwr yn gwybod bod rhaid iddo barchu ein hymrwymiad i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a dangos tryloywder.

Rydym hefyd yn dangos ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy yn ein prosesau a'n gweithgareddau caffael. Yn ystod y cam strategaeth a chynllunio caffael, rydym yn:

- datblygu meini prawf gwerth am arian sy'n ystyried effaith economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol tymor byr a thymor hir
- nodi'r wybodaeth rydym ei heisiau gan ddarparu gyflenwyr fel y gallwn gymhwyso'r meini prawf hynny'n deg
- gweithio gyda chyflenwyr i amlygu ffyrdd mwy cynaliadwy o fodloni anghenion
- croesawu datrysiadau arloesol gan gyflenwyr, gan gynnwys busnesau bach a chanolig.

Rydym wedi asesu ein fframwaith caffael yn erbyn canllawiau anstatudol y comisiwn ar gaffael. Yn dilyn yr asesiad, byddwn yn:

- datblygu Offeryn Asesu Risg Cynaliadwy erbyn 31 Mawrth 2021 ar gyfer asesu perthnasedd cyfle cyfartal ar gam datblygu tendr. Bydd yr offeryn hwn yn ymdrin ag ystyriaethau cydraddoldeb trwy ystyried effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y gwasanaethau neu'r nwyddau rydym yn eu caffael
- yn dibynnu ar ganlyniadau'r Asesiad Risg Cynaliadwy, byddwn yn ystyried ymagwedd cyflenwr posibl at gydraddoldeb yn ei arferion cyflogaeth a darparu gwasanaethau yn ein prosesau gwerthuso tendr a chontractio. Byddwn yn profi'r cwestiynau hyn trwy gyn-gymhwyso neu drwy eu hymgorffori yn y meini prawf dyfarnu.

Gwaith yn y dyfodol

Mae'r pandemig Covid-19 wedi amlygu'r [heriau eithriadol a'r anghydraddoldebau dwfn sy'n wynebu pobl BAME yng Nghymru a thu hwnt](#). Cydnabyddir ar draws y sector gofal cymdeithasol y gellir gwneud mwy i amddiffyn y rhai sy'n gweithio ar y rheng flaen trwy ddefnyddio'r offer sydd ar gael ([fel offeryn asesu risg y gweithlu COVID-19](#)) a sicrhau bod cyfarpar diogelu personol a phroffion ar gael iddynt.

Mae'r pandemig wedi dangos pa mor allweddol yw'r gweithlu gofal cymdeithasol i lesiant pobl o bob oed mewn cymunedau ledled Cymru. Yng ngoleuni hyn, rydym yn datblygu *Cynllun cydraddoldeb strategol* newydd, a fydd yn rhoi cydraddoldeb a hawliau dynol wrth wraidd y penderfyniadau a wnawn.



Y mudiad Black Lives Matter

Rydym wedi gwrandao ar bryderon a godwyd gan ein staff ynglŷn â'r materion a amlygwyd gan y mudiad *Black Lives Matter* ac wedi myfyrio ar ein rôl a'n cyfrifoldeb arweinyddiaeth yng ngoleuni hyn. Rydym eisiau arwain trwy esiampl. Rydym yn falch o amrywiaeth ein bwrdd, o ran rhywedd, oedran, anabledd, cefndir a phrofiadau bywyd. Ac eto, gwelir môr o wynebau gwynion ym mhob cyfarfod lle y gwneir penderfyniadau ac nid ydym yn adlewyrchu amrywiaeth hiliol Cymru.

Mae ein proffil staff yn wyn hefyd i raddau helaeth, gyda chymysgedd da o ddynion a menywod o bob oed ac ar bob lefel. Mae gennym nifer go dda o staff o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig o gymharu â phoblogaeth Cymru, ond gan fod ein prif swyddfa yng Nghaerdydd, gallem adlewyrchu amrywiaeth y ddinas yn well.

Rydym wedi amlygu cyfres o weithredoedd i'w cyflawni a bydd naw cam pwysig yn cael eu cymryd. Byddwn yn:

1. Bod yn glir ar ein gwefan ac mewn fforymau eraill ynglŷn â'n cefnogaeth i egwyddorion a nodau'r mudiad *Black Lives Matter*, a'r camau y byddwn yn eu cymryd fel sefydliad i wella ein gwaith gwrth-hiliaeth.
2. Newid ein proses ymgeisio fel bod yr holl recriwtio cyn y cam cyfweld yn cael ei wneud yn 'ddall', heb gyfeirio at enwau na dangosyddion posibl eraill ethnigrwydd.
3. Archwilio cynllun gwarantu cyfweiliad i bobl â nodweddion gwarchodedig (sy'n bodloni meini prawf y rhestr fer). Byddwn hefyd yn hysbysebu pob swydd wag yn allanol, oni bai bod sail resymegol neu angen busnes cryf i'w hysbysebu'n fewnol yn unig – bydd rhaid i'n tîm rheoli gweithredol gytuno ar hyn.
4. Cynnal hyfforddiant gorfodol gyda'n holl staff, aelodau Bwrdd ac aelodau panel gwrandawriad, gan gynnwys hyfforddiant ar adnabod rhagfarn ddjarwybod, cyn diwedd mis Mawrth 2021.
5. Mynnu bod ein holl gontractwyr yn llofnodi datganiadau clir ynglŷn â gwrth-hiliaeth wrth weithio i ni.
6. Cynorthwyo Gweinidogion Cymru i wella amrywiaeth ein Bwrdd ac adolygu ein rhestr aelodau panel gwrandawriad i amlygu unrhyw wendidau mewn amrywiaeth.
7. Adolygu ein hymgyrch Gofalwn Cymru i amlygu sut y gellir ei defnyddio i annog pobl BAME i ymuno â'r sector gofal cymdeithasol.
8. Yn ystod adolygiad o'n gwaith addasrwydd i ymarfer, byddwn yn edrych ar y canlyniadau ystadegol ar gyfer staff BAME ar y camau atgyfeirio, ymchwilio a gwrandawriad, ac yn cymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon, os bydd angen.
9. Gwneud yn siŵr pan fyddwn yn nodi digwyddiadau pwysig (fel diwrnodau crefyddol) gyda'n staff ein bod yn adlewyrchu amrywiaeth ein staff a phobl Cymru.

Ymrwymiad i'r Gymraeg

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldebau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'n rôl arweinyddiaeth wrth gefnogi *Mwy na geiriau... Fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn ieched, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol Llywodraeth Cymru.*

Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg (Deddf yr Iaith Gymraeg 1993) a Safonau'r Gymraeg yn amlinellu sut y bydd angen i ni drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd. Er nad yw'r Gymraeg yn nodwedd warchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae ein hymagwedd a'n gwerthoedd yn sicrhau bod ein gwaith a'n penderfyniadau polisi yn hyrwyddo pwysigrwydd y Gymraeg i bobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, a'u teuluoedd a'u gofalwyr.

Manylion cyswilt

Croesawn sylwadau ar yr adroddiad blynyddol hwn. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu os hoffech lywio ein gwaith ar gyflawni ein *Cynllun cydraddoldeb strategol* a'n hamcanion cydraddoldeb, cysylltwch ag:

Abubakar Askira
Rheolwr Ymgysylltu a Datblygu
Gofal Cymdeithasol Cymru
7fed Llawr, South Gate House
Wood Street
Caerdydd CF10 1EW

Rhif ffôn: 02920 780678

E-bost: abubakar.askira@gofalcymdeithasol.cymru



Gwybodaeth gydraddoldeb gan ein staff

Rydym yn cynnal arolwg cydraddoldeb ac amrywiaeth ynglŷn â'n staff. Rydym yn gwneud hyn trwy annog aelodau staff i ddiweddarau eu proffil amrywiaeth cyn yr archwiliad blynyddol o gyflogau cyfartal.

Tabl 1: Proffil amrywiaeth staff⁵

Rhywedd	Canran	Canran gyfartalog yng Nghymru ⁶
Gwrywaidd	25.6	48.4
Benywaidd	74.4	51.6
Oedran		
18-21	0.8	5.5
22-29	18.5	11.5
30-39	39.5	12.9
40-49	24.1	13.1
50-59	15.3	15.1
60+	1.6	22.4
Crefydd		
Anffyddiwr	7.25	32.1
Agnostig	3.2	
Catholig	0.8	57.6
Cristion	25	
Mwslim	1.6	1.5
Dim	19.35	
Heb ddatgan	42.7	
Cyfeiriadedd rhywiol		
Deurywiol	0	n/a
Heterorywiol	56.45	93.2
Cyfunrywiol	1.6	2
Heb ddatgan	41.9	
Anabledd		
Ie	4.03	14
Na	42.7	86
Heb ddatgan	53.2	

5. Cyfanswm y staff a gyflogwyd oedd 125 ym mis Mawrth 2019

6. Ffynhonnell: Rhywedd / oed / hil / crefydd / anabledd – StatsCymru. Cyfeiriadedd rhywiol / statws priodasol – y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Rhywedd	Canran	Canran gyfartalog yng Nghymru ⁶
Hil		
Du Affricanaidd	1.6	0.4
Du Caribiaidd	0	0.2
Gwyn Asiaidd	0	1.8
Gwyn	45.96	96.2
Gwyn – Cymro/Cymraes	4.8	
Gwyn a Du Affricanaidd	1.6	
Heb ddatgan	45.96	
Partneriaeth sifil / Priod		
le	33	51
Na	22.58	49
Heb ddatgan	44.35	
Yr un rhywedd ag adeg geni		
le	54.83	n/a
Na	0	
Heb ddatgan	45.16	

Proffil amrywiaeth y bobl ar ein Cofrestr

Rydym yn monitro nodweddion gwarchoddedig pawb sydd ar ein Cofrestr. Rydym hefyd yn casglu gwybodaeth am sgiliau Cymraeg y bobl sydd wedi'u cofrestru gyda ni. Rydym yn cyhoeddi proffiliau data bob blwyddyn, sydd wedi'u seilio ar y wybodaeth a ddarparwyd gan ymgeiswyr sy'n cofrestru ac yn adnewyddu eu cofrestrriad gyda ni. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am hyn ar [ein gwefan](#).

Set Ddata Gofal Cymdeithasol Genedlaethol i Cymru

Mae'r Set Ddata Gofal Cymdeithasol Genedlaethol yn casglu data gofal cymdeithasol mewn un man i ddangos sut mae'r sector gofal cymdeithasol yn perfformio yng Nghymru. Gwnaethom ychwanegu Catalog Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol i'n [Porth Data](#) yn ddiweddar.

Mae'r [Catalog Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol](#) yn helpu'r rhai sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol i ddod o hyd i'r data y mae arnynt ei angen ac mae'n dal gwybodaeth am 44 o setiau data ar hyn o bryd. I ddysgu mwy am y setiau data sydd ar gael a chael at y data, gallwch [chwilio'r](#) catalog neu [weld](#) y setiau data yn ôl pwnc. Gallwch hefyd [archwilio'r](#) catalog gan ddefnyddio [offeryn](#) delweddu rhyngweithiol

Byddem yn croesawu unrhyw adborth sydd gennych am y catalog. Cysylltwch â ni i roi eich barn drwy anfon neges e-bost at data@gofalcymdeithasol.cymru.

Data cydraddoldeb o'r rhaglenni hyfforddi cenedlaethol

Mae gennym rôl i wella ansawdd a rheolaeth dysgu, datblygu, cymwysterau a hyfforddiant gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol, a'r blynyddoedd cynnar.

Mae'r rôl hon yn ein helpu i sicrhau bod gan y gweithlu gofal cymdeithasol y wybodaeth, y sgiliau, y ddealltwriaeth a'r ymagwedd iawn i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd da yn y sector gofal cymdeithasol a sector y blynyddoedd cynnar.

Wrth ystyried beth i'w gynnwys yn yr adroddiad hwn, gwnaethom benderfynu darparu gwybodaeth gydraddoldeb am y myfyrwyr gwaith cymdeithasol sy'n dilyn y rhaglenni cymhwyso gwaith cymdeithasol cymeradwy yng Nghymru.

Tabl 2: Monitro cydraddoldeb myfyrwyr gwaith cymdeithasol

Categori	Carfan 2017-18	Carfan 2018-19	Carfan 2019-20
Oedran ar gyfartaledd	32 oed	31 oed	32 oed
Y nifer a dderbyniwyd	252	262	273
Rhywedd			
Benywaidd	88.4%	86.0%	84.8%
Gwrywaidd	11.60%	14%	15.2%
Ethnigrwydd			
BAME	6.4%	6.4%	5.5%
Gwyn	93.6%	93.6%	94.5%
Anabledd	3.8%	3.4%	4.5%
Cyfeiriadedd rhywiol			
Heterorywiol	94.0%	93.4%	95.6%
Cyfunrywiol/Deurywiol	6.0%	6.6%	4.4%
Gallu o ran y Gymraeg			
Rhywfaint/rhugl	52.1%	52.1%	55.1%
Dim	47.9%	47.9%	44.9%